

Lwfans Tai Lleol

Budd-daliadau Tai
Tŷ Elwyn, Llanelli SA15 3AP
Ffôn: (01554) 742100

At ddefnydd swyddogol yn unig
Stamp o'r dyddiad derbyn

Cyfeirnod yr hawliad os ydych yn gwybod hyn

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord

Beth yw diben y ffurflen hon?

Byddwn yn talu Lwfans Tai Lleol i chi fel arfer. Ond mewn rhai amgylchiadau gallwn dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord ar eich rhan, er enghraifft, os ydych yn debygol o gael anhawster rheoli eich materion ariannol, neu os bydd eich landlord yn gostwng eich rhent.

Efallai na fydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon, ond ceisiwch roi cymaint o wybodaeth â phosibl. Anfonwch unrhyw dystiolaeth atom y gofynnwyd amdani.

Bydd y wybodaeth a rowch ar y ffurflen hon yn ein helpu ni i benderfynu a yw'n briodol talu eich landlord.

Drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen hon, rydych yn ein hawdurdodi i dalu eich Lwfans Tai Lleol i'ch landlord.

Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Lle bo'n bosibl dylech chi, y tenant, lenwi'r ffurflen, ond gallwch ofyn i rywun ei llenwi ar eich rhan. Gallai fod yn:

- aelod o'r teulu neu'n ffrind
- eich prif ofalwr
- gweithiwr cymorth
- canolfan gynghori neu asiantaeth les
- y landlord neu'r asiant gosod tai
- person sy'n gweithio i wasanaeth arall yn y Cyngor.

Rhaid mai chi sy'n llofnodi'r ffurflen. Os na allwch wneud hynny, bydd angen i chi egluro pam yn y **Datganiad**.

Beth ddylai gael ei anfon gyda'r ffurflen hon?

Mae'n rhaid i ni weld dystiolaeth ysgrifenedig sy'n cefnogi'r wybodaeth a rowch i ni yn y ffurflen hon. Gall hyn ddod o ffynonellau amrywiol yn dibynnu ar eich amgylchiadau, er enghraifft:

- grwpiau lles
- gweithwyr gofal
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- eich Meddyg Teulu
- ysbyty
- llysoedd
- Swyddogion Prawf
- eich teulu neu'ch ffrindiau
- eich landlord neu'ch asiant gosod tai.

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn ac mae'n bosibl y gallwn dderbyn dystiolaeth gan ffynonellau eraill hefyd.

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord (parhad)...

Ynglŷn â'r tenant

Cyfenw neu enw teulu

Enwau eraill

Dyddiad geni Rhif yswiriant gwladol

Cyfeiriad
Côd post

Rhif ffôn Côt Rhif

Dyddiad symud i mewn / /

Ynglŷn â'r landlord

Enw'r landlord

Enwau eraill
Cyfeiriad
Côd post

Rhif ffôn Côt Rhif

Enw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon

Ai chi yw'r tenant? Na Dywedwch wrthym amdanoch eich hun ar y dudalen nesaf.
Ie

OS MAI CHI YW'R LANDLORD NODWCH YMA A FYDDECH YN YSTYRIED GOSTWNG Y RHENT I GYFRADD Y LWFANS TAI LLEOL NEU I LEFEL FFORDDIADWY AR GYFER EICH TENANT

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord (parhad)...

Enw

Cyfeiriad

Côd post

Rhif ffôn

Côd	Rhif
-----	------

Beth yw eich perthynas â'r tenant?

Ynglŷn â'ch rhent

1) A ydych chi / eich partner yn cael anhawster talu eich rhent?

Nac ydw / Nac ydy

Ydw / Ydy

2) A oes gennych chi / eich partner ôl-ddyledion rhent?

Nac oes

Oes Rhowch fanylion am hyn isod.

Faint yw eich ôl-ddyledion?

£

Dros ba gyfnod y mae'r ôl-ddyledion hyn? O

 / /

hyd at

 / /

3) A yw eich landlord wedi cymryd unrhyw gamau i adennill yr ôl-ddyledion rhent?

Nac ydy

Ydy Rhowch fanylion am hyn isod.

Pa gamau y mae'r landlord wedi'u cymryd?

Achos llys

Rhybudd o Geisio Meddiant

Rhybudd i Ymadael

Llythyr

Sefydlu cynllun talu

Arall - rhowch fanylion

TENANTIAID

Ers mis Ebrill 2011, gallwn dalu eich landlord yn uniongyrchol os ydyw wedi gostwng y rhent i lefel fforddiadwy sy'n eich galluogi i gadw eich tenantiaeth neu os yw hyn yn eich helpu i sicrhau tenantiaeth newydd

4) A ydych chi / eich partner wedi gofyn i'ch landlord ostwng y rhent? Nac ydw / Nac ydy Os nad ydych, rhaid rhoi manylion i egluro pam.
 Ydw / Ydy Anfonwch ymateb eich landlord atom.

4a) Ticiwch yma os oes arnoch angen cymorth i gyd-drafod â'ch landlord

Os oes, sicrhewch eich bod wedi cwblhau'r adran flaenorol ynglŷn â MANYLION CYSWLLT eich landlord a llofnodwch yn y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn awdurdodi'r adain Budd-daliadau Tai i gysylltu â'r landlord ar eich rhan.

Llofnod

5) A ydych chi / eich partner wedi cael anhawster talu rhent yn y gorffennol?

Nac ydw / Nac ydy

Ydw / Ydy Eglurwch pam eich bod wedi cael problemau.

Ynglŷn â biliau eraill

6) A oes unrhyw arian yn cael ei dynnu o'ch:

Cymorthdal Incwm
Lwfans Ceisio Gwaith
Credyd Pensiwn

chi neu'ch partner i dalu unrhyw ôl-ddyledion?

Nac oes

Oes

Ar gyfer beth y mae hyn? Ticiwch y blychau sy'n berthnasol ac anfonwch brawf o'r didyniadau atom

Rhent

Nwy

Trydan

Trethi Dŵr

Cofiwch lenwi'r asesiad ariannol ar ddiwedd y ffurflen hon

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord (parhad)...

Ynglŷn â biliau eraill – parhad

7) A oes angen cymorth
arnoch chi / eich partner i ddelio
â'ch holl ddyledion?

Nac oes

Oes

8) A ydych chi / eich partner
yn cael cymorth gan unrhyw un neu
unrhyw sefydliad i'ch helpu gyda'ch
rhent a'ch dyledion ar hyn o bryd?

Nac ydw / Nac ydy

Ydw / Ydy Dywedwch wrthym amdanynt
Enw

Côd post

Rheswm dros dalu Lwfans Tai Lleol i'r landlord

9) Os ydych chi / eich partner yn debygol o gael trafferth rheoli eich arian a thalu eich rhent,
ticiwch y blwch/blychau sy'n berthnasol i chi. Rhaid i ni weld y dystiolaeth y gofynnir amdani.

a Anawsterau dysgu

Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithwyr gofal, eich gweithiwr
cymorth

b Cyflyrau meddygol
(yn cynnwys problemau
iechyd meddwl a chorfforol)

Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithwyr gofal, eich meddyg,
yr ysbyty

c Anawsterau difrifol o ran
darllen ac ysgrifennu

Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithwyr gofal, grwpiau
cymorth

d Dibyniaethau
(cyffuriau, alcohol,
hapchwarae)

Tystiolaeth ysgrifenedig gan grwpiau cymorth, y
Gwasanaeth Cymdeithasol, eich meddyg, yr ysbyty

e Anawsterau iaith

Tystiolaeth ysgrifenedig gan grwpiau cymorth

f Methu ag
agor cyfrif banc

Llythyr gan ymgynghorwyr ariannol/banc

g Hanes o ôl-ddyledion
rhent neu ddigartrefedd

Tystiolaeth ysgrifenedig gan grwpiau cymorth, elusennau
digartrefedd

h Arall

Tystiolaeth ysgrifenedig

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord (parhad)...

I wedi gostwng y rhent i lefel
Lwfans Tai Lleol neu i lefel
fforddiadwy

Tystiolaeth ysgrifenedig – h.y. cytundeb tenantiaeth
newydd / RA2

Talu eich landlord

10) A ydych yn credu y dylai
eich taliadau Lwfans Tai Lleol
gael eu gwneud yn uniongyrchol
i'ch landlord?

Nac ydw

Ydw

Nodwch eich rhesymau

11) Am ba hyd rydych yn credu
y bydd angen gwneud taliadau
i'ch landlord?

1 mis

3 mis

6 mis

9 mis

12 mis

Mwy na
12 mis

Dywedwch wrthym am ba hyd a pham.

12) Defnyddiwch y blwch hwn i ychwanegu unrhyw beth arall rydych yn credu y byddai angen i
ni ei wybod. **E.E. MANYLION YNGHYLCH UNRHYW GYD-DRAFOD Â'CH LANDLORD**
Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Cais am dalu Lwfans Tai Lleol i'ch landlord (parhad)...

Datganiad

Darllenwch y datganiad isod a'i lofnodi a'i ddyddio. Os oes gennych bartner, dylai ef neu hi lofnodi isod hefyd.

Defnyddiwn *bartner* i olygu:

- unigolyn rydych wedi'i briodi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fel petaech yn briod, neu
- bartner sifil neu unigolyn sy'n byw gyda chi fel petaech yn bartneriaid sifil.

- **Rwyf yn datgan** bod y wybodaeth rwyf wedi'i nodi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- **Rwyf yn cytuno** i ganiatáu i'm landlord dderbyn fy Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol, hyd at swm y rhent a nodir yn y contract.
- **Byddaf yn cysylltu** â'r adain Budd-daliadau Tai os byddaf yn credu fy mod mewn sefyllfa i allu derbyn fy mudd-dal yn uniongyrchol e.e. pan na fydd gennyf fwy nag 8 wythnos o ôl-ddyledion rhent mwyach, pan fyddaf yn gallu rheoli fy arian.
- **Rwyf yn cytuno y gallwch ofyn i unrhyw berson neu sefydliad a nodwyd yn y ffurflen hon am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddelio â'm cais.**
- **Rwyf yn cytuno y gallwch rannu gwybodaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth os oes angen cyngor ariannol.**
- **RWYF YN CYTUNO Y GALLWCH RANNU GWYBODAETH A / NEU GYFEIRIO FY MANYLION AT Y TÎM DEWISIADAU TAI, ADRAN TAI, CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**
- **Rwyf wedi deall y datganiad.**

Eich llofnod

Dyddiad

Llofnod eich partner

Dyddiad

Datganiad yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen ar ran y tenant

- **Rwyf yn datgan** bod y wybodaeth rwyf wedi'i nodi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwyf yn credu** bod talu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'r landlord, hyd at y swm a nodir yn y contract, o fudd pennaf i'r tenant.
- **Rwyf wedi darllen a deall y datganiad.**

Llofnod
Enw llawn

Dyddiad

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen hon neu os ydych am gael gwybod mwy am dalu'ch landlord gallwch

- ffonio eich adain Budd-daliadau Tai ar 01554 742100
- e-bostio housing.benefits@sirgar.gov.uk
- ymweld â'ch Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid agosaf yn:
- 3 Heol Spilman, Caerfyrddin
- Yr Hwb, Llanelli
- Neuadd y Dref, Heol Iscennen, Rhydaman
- ysgrifennu atom yn: Adain Budd-daliadau Tai, 3^{ydd} Llawr, Tŷ Elwyn, Llanelli SA15 3AP

At ddefnydd y swyddfa

Penderfyniad

Dyddiad Adolygu

Aseiad ariannol

Enw'r Swyddog

Dyddiad

Incwm wythnosol	Chi	Eich partner
Incwm net o gyflogaeth	£	£
Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith	£	£
Credyd Treth Gweithio neu Gredyd Treth Plant	£	£
Budd-dal Tai	£	£
Budd-dal Plant	£	£
Credyd Pensiwn, Pensiwn Gwladol neu Bensiwn Gwaith	£	£
Unrhyw fudd-dal gwladol arall	£	£
Arian gan eich rhieni neu'ch ffrindiau	£	£
Unrhyw incwm arall – nodwch y ffynhonnell	£	£
	£	£
Cyfanswm incwm wythnosol	£	£
Cyfanswm cyfunol A	£	

Treuliau wythnosol	Taliadau wythnosol	Ôl-ddyledion os oes rhai
Gofynnir ichi newid unrhyw dreuliau misol i ffigyrau wythnosol		
Rhent	£	£
Morgais	£	£
Y Dreth Gyngor	£	£
Trydan	£	£
Nwy	£	£
Trethi dŵr	£	£
Trwydded deledu a chostau rhentu teledu	£	£
Ffôn	£	£
Bwyd	£	£
Nwyddau cartref	£	£
Dillad	£	£
Car neu drafnidiaeth gyhoeddus	£	£
Cynnal a chadw	£	£
Dirwyon	£	£
Treuliau eraill – nodwch beth ydynt	£	£
Cyfanswm treuliau wythnosol B	£	£
Incwm wythnosol tynnu treuliau wythnosol: cyfanswm A - cyfanswm B	£	£

Benthyciadau a dyledion credyd eraill Enw'r benthyciwr	Y swm sy'n ddyledus	Ad-daliadau wythnosol
1		
2		
3		
4		
5		
6		
7		
8		
	Cyfanswm yr ad-daliadau wythnosol	£